OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif (Cy. )

## TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Cylchfan yr Antelope, Bangor, Gwynedd i Gyffordd Lôn Refail, Llanfair Pwllgwyngyll, Ynys Môn) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *19 Mehefin 2020* |
| *Yn dod i rym* | *26 Mehefin 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A5, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi, Cychwyn a Dehongli

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Cylchfan yr Antelope, Bangor, Gwynedd i Gyffordd Lôn Refail, Llanfair Pwllgwyngyll, Ynys Môn) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 26 Mehefin 2020.

**(1)** 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2020 No. (W. )

## ROAD TRAFFIC, WALES

## The A5 Trunk Road (Antelope Roundabout, Bangor, Gwynedd to the Junction of Lon Refail, Llanfairpwll, Anglesey) (Temporary Traffic Prohibitions and Restrictions) Order 2020

| | |
|---|---|
| *Made* | *19 June 2020* |
| *Coming into force* | *26 June 2020* |

The Welsh Ministers as traffic authority for the A5 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be restricted and/or prohibited because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984**(1)**, make this Order.

### Title, Commencement and Interpretation

**1.** The title of this Order is the A5 Trunk Road (Antelope Roundabout, Bangor, Gwynedd to the Junction of Lon Refail, Llanfairpwll, Anglesey) (Temporary Traffic Prohibitions and Restrictions) Order 2020 and it comes into force on 26 June 2020.

**(1)** 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006(c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(2)** neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 26 Mehefin 2020 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A5 Llundain i Gaergybi a'i chilfannau;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

## Gwaharddiadau a Chyfyngiadau

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1 a 2 i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**(2)** Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

**2.** In this Order—

"exempted vehicle" *("cerbyd esempt")* means:

(a) any vehicle being used by the emergency services for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984**(2)** or in connection with the works giving rise to this Order;

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

"special forces" *("lluoedd arbennig")* means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

"the trunk road" *("y gefnffordd")* means the A5 London to Holyhead Trunk Road and Laybys.

"works period" *("cyfnod y gwaith")* means intermittent periods commencing at 00:01 hours on 26 June 2020 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

## Prohibitions and Restrictions

**3.** No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road specified in Schedule 1 and 2 to this Order.

**4.** No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 40 miles per hour on the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

**(2)** Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**6.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**7.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 6 yn weithredol

**Cymhwyso**

**8.—**(1) Ni fydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

**Atal Dros Dro**

**9.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darn o'r gefnffordd wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 4, 5 a 6 yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**10.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 19 Mehefin 2020

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

**5.** No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 30 miles per hour on the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

**6.** No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 10 miles per hour on the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

**7.** No person may, during the works period, use or permit the use of a vehicle, other than an exempted vehicle, in such a way that it overtakes any other vehicle on the length of the trunk road specified in Schedule 3 to this Order during such times as the restriction referred to in article 6 is in operation.

**Application**

**8.—**(1) The prohibitions and restrictions in articles 3, 4, 5, 6 and 7 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limit imposed by this Order applies to an exempted vehicle.

**Suspensions**

**9.** Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the length of the trunk road are suspended during such times as the restrictions specified in articles 4, 5 and 6 are in operation.

**Duration of this Order**

**10.** The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated 19 June 2020

*Nicci Hunter*
Business Team Leader
Welsh Government

**ATODLEN 1**

**Gwahardd Cerbydau a Therfyn Cyflymder 40 mya a 30mya Dros Dro**

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o gerbytffordd gylchredol Cylchfan yr Antelope hyd at ganolbwynt ei chyffordd â Lôn Refail yn Llanfair Pwllgwyngyll.

**ATODLEN 2**

**Cau Cilfannau Dros Dro**

1. Y gilfan sydd 530 o fetrau i'r dwyrain o gyffordd Lôn Refail, Llanfair Pwllgwyngyll hyd at bwynt 640 o fetrau i'r dwyrain o'r gyffordd honno.

2. Y gilfan sydd 750 o fetrau i'r dwyrain o gyffordd Lôn Refail, Llanfair Pwllgwyngyll hyd at bwynt 810 o fetrau i'r dwyrain o'r gyffordd honno

**ATODLEN 3**

**Terfyn Cyflymder 10 mya Dros Dro a Gwahardd Goddiweddyd yn ystod Gwaith Confoi**

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o gerbytffordd gylchredol Cylchfan yr Antelope hyd at ganolbwynt ei chyffordd â Lôn Refail yn Llanfair Pwllgwyngyll.

**SCHEDULE 1**

**Temporary Prohibition of Vehicles, 40mph and 30mph Speed Limit**

The length of the trunk road that extends from the circulatory carriageway of Antelope Roundabout to the centre of its junction with Lon Refail at Llanfairpwll.

**SCHEDULE 2**

**Temporary Closure of Laybys**

1. The layby located 530 metres east of the junction of Lon Refail, Llanfairpwll to a point 640 metres east of said junction.

2. The layby located 750 metres east of the junction of Lon Refail, Llanfairpwll to a point 810 metres east of said junction.

**SCHEDULE 3**

**Temporary 10 mph Speed Limit & Prohibition of Overtaking during Convoy Working**

The length of the trunk road that extends from the circulatory carriageway of Antelope Roundabout to the centre of its junction with Lon Refail at Llanfairpwll.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A5 (CYLCHFAN YR ANTELOPE, BANGOR, GWYNEDD I GYFFORDD LÔN REFAIL, LLANFAIR PWLLGWYNGYLL, YNYS MÔN) (GWAHARDDIADAU A CHYFYNGIADAU TRAFFIG DROS DRO) 2020**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A5, neu gerllaw iddi, o Gylchfan yr Antelope, Bangor i gyffordd Lôn Refail, Llanfair Pwllgwyngyll, Gwynedd.

Effaith y Gorchymyn fydd gwneud y canlynol dros dro:

i) gwahardd pob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys, rhag mynd ar y

**THE A5 TRUNK ROAD (ANTELOPE ROUNDABOUT, BANGOR, GWYNEDD TO THE JUNCTION OF LON REFAIL, LLANFAIRPWLL, ANGLESEY) (TEMPORARY TRAFFIC PROHIBITIONS AND RESTRICTIONS) ORDER 2020**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A5 trunk road from Antelope Roundabout, Bangor to the junction of Lon Refail, Llanfairpwll, Gwynedd.

The effect of the Order will be to temporarily:

i) prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services, from proceeding on the length of the trunk road specified in Schedule 1 and 2 to this Notice;

darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1 a 2 i'r Hysbysiad hwn;

ii) gosod terfyn cyflymder o 40 mya a 30 mya, fel y bo angen, ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn;

iii) gosod terfyn cyflymder o 10 mya pan fydd gwaith confoi yn digwydd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn; a

iv) gwahardd pob cerbyd rhag goddiweddyd pan fydd gwaith confoi yn digwydd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn.

Caniateir atal traffig am ysbeidiau byr olynol ar unrhyw adeg tra pery'r Gorchymyn gan ddefnyddio naill ai arwyddion neu oleuadau traffig priodol neu gyda chymorth Swyddog Heddlu neu Swyddog Traffig. Nid oes angen unrhyw lwybrau dargyfeirio.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau dros dro, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn dod i rym am 00:01 o'r gloch ar 26 Mehefin 2020 ac yn weithredol yn ysbeidiol am 18 mis ar y mwyaf, neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

ii) impose a 40 mph and 30 mph speed limit, as required, on the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Notice;

iii) impose a 10 mph speed limit during convoy working on the length of the trunk road specified in Schedule 3 to this Notice; and

iv) prohibit all vehicles from overtaking during convoy working on the length of the trunk road specified in Schedule 3 to this Notice.

Traffic may be stopped for successive short period intervals at any time during the order duration using either appropriate traffic signs or signals or with the assistance of a Police Officer or Traffic Officer. No diversionary routes are necessary.

It is expected that the temporary prohibitions and restrictions, which will be signed accordingly, will come into force at 00:01 hours on 26 June 2020 and operate intermittently for a maximum duration of 18 months, or until the temporary traffic signs are permanently removed.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

## ATODLEN 1

### Gwahardd Cerbydau a Therfyn Cyflymder 40 mya a 30mya Dros Dro

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o gerbytffordd gylchredol Cylchfan yr Antelope hyd at ganolbwynt ei chyffordd â Lôn Refail yn Llanfair Pwllgwyngyll.

## SCHEDULE 1

### Temporary Prohibition of Vehicles, 40mph and 30mph Speed Limit

The length of the trunk road that extends from the circulatory carriageway of Antelope Roundabout to the centre of its junction with Lon Refail at Llanfairpwll.

## ATODLEN 2

### Cau Cilfannau Dros Dro

1. Y gilfan sydd 530 o fetrau i'r dwyrain o gyffordd Lôn Refail, Llanfair Pwllgwyngyll hyd at bwynt 640 o fetrau i'r dwyrain o'r gyffordd honno.

2. Y gilfan sydd 750 o fetrau i'r dwyrain o gyffordd Lôn Refail, Llanfair Pwllgwyngyll hyd at bwynt 810 o fetrau i'r dwyrain o'r gyffordd honno.

## ATODLEN 3

### Terfyn Cyflymder 10 mya Dros Dro a Gwahardd Goddiweddyd yn ystod Gwaith Confoi

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o gerbytffordd gylchredol Cylchfan yr Antelope hyd at ganolbwynt ei chyffordd â Lôn Refail yn Llanfair Pwllgwyngyll.

## SCHEDULE 2

### Temporary Closure of Laybys

1. The layby located 530 metres east of the junction of Lon Refail, Llanfairpwll to a point 640 metres east of said junction.

2. The layby located 750 metres east of the junction of Lon Refail, Llanfairpwll to a point 810 metres east of said junction.

## SCHEDULE 3

### Temporary 10 mph Speed Limit & Prohibition of Overtaking during Convoy Working

The length of the trunk road that extends from the circulatory carriageway of Antelope Roundabout to the centre of its junction with Lon Refail at Llanfairpwll.